	Polisi Cwynion Complaints Policy	Polisi / Policy 8

Yn unol ag **Atodiad 1** dogfen Llywodraeth Cymru:

Canllawiau i lywodraethwyr ar sut i ddelio â chwynion
(Cyhoeddwyd Gyntaf: 01/12/22; Diweddarwyd Ddiwethaf: 14/03/2023)

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	Tudalen 3
2.	Pryd i ddefnyddio'r polisi hwn	Tudalen 3
3.	Ydych chi wedi gofyn inni eto?	Tudalen 3
4.	Beth a ddisgwylir ohonoch chi	Tudalen 3
5.	Ein dull o ateb eich pryder neu gŵyn	Tudalen 4
6.	Ateb eich pryder neu gŵyn	Tudalen 4
7.	Cam A	Tudalen 5
8.	Cam B	Tudalen 5
9.	Cam C	Tudalen 6
10.	Amgylchiadau arbennig	Tudalen 7
11.	Ein hymrwymiad i chi	Tudalen 7
-	Atodiad A: Ffurflen Gwyno	Tudalennau 9 a 10

1. Cyflwyniad

1.1 Mae **Ysgol Gynradd Aberaeron** wedi ymrwymo i ddelio â chwynion mewn ffordd effeithiol. Ein nod yw rhoi eglurder ar unrhyw faterion nad ydych chi'n siŵr amdanynt. Os yn bosib, byddwn yn cywiro unrhyw gamgymeriadau a wnaed gennym, a byddwn yn ymddiheuro. Ein nod yw dysgu o'n camgymeriadau a defnyddio'r profiad hwnnw i wella'r hyn a wnawn.

1.2 Ni fyddwn yn goddef unrhyw fath o fwlio nac aflonyddu, ac rydym yn hyrwyddo perthnasoedd parchus rhwng dysgwyr, rhieni, staff, a llywodraethwyr. Bydd cwynion am fwlio yn cael eu hystyried ar y cyd â pholisïau ysgol eraill perthnasol a byddant yn cael eu trin fel rhai sydd o'r pwysigrwydd mwyaf.

1.3 Ein diffiniad o gŵyn yw '***mynegiant o anfodlonrwydd mewn perthynas â'r Ysgol, aelod o'i staff, neu'r Corff Llywodraethu, sy'n gofyn am ymateb gan yr Ysgol***.'

1.4 Mae'r weithdrefn gwyno hon yn tystio i'n hymrwymiad, ac mae'n ffordd o sicrhau y gall unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r Ysgol fynegi pryder, gan deimlo'n hyderus y bydd yn cael gwrandawiad, ac os oes sail deilwng iddo, y bydd yn cael ei drin mewn ffordd briodol ac amserol.

2. Pryd i ddefnyddio'r polisi hwn

2.1 Pan fydd gennych chi bryder neu pan fyddwch chi'n gwneud cwyn, byddwn fel arfer yn ymateb yn y ffordd a esbonnir gennym isod. Weithiau, mi allwch chi fod yn bryderus am faterion nad ydynt yn cael eu penderfynu gan yr Ysgol, ac os felly byddwn yn dweud wrthoch chi wrth bwy y dylech chi gwyno. Ar adegau eraill, mi allech chi fod yn bryderus am faterion y delir â nhw drwy weithdrefnau eraill, ac os felly byddwn yn esbonio sut y bydd eich pryder yn cael sylw.

2.2 Os yw eich pryder neu gŵyn yn ymwneud â chorff arall yn ogystal â'r Ysgol (er enghraifft yr Awdurdod Lleol) byddwn yn gweithio gyda nhw i benderfynu sut i ddelio â'ch pryder.

3. A ydych chi wedi gofyn inni eto?

3.1 Os ydych chi'n cysylltu â ni am y tro cyntaf dylech roi cyfle inni ymateb. Os nad ydych chi'n hapus gyda'n hymateb, yna gallwch gyflwyno'ch cwyn gan ddefnyddio'r weithdrefn a ddisgrifir isod. Gellir setlo'r rhan fwyaf o bryderon yn gyflym drwy gael gair efo'r unigolyn perthnasol yn yr Ysgol, heb orfod defnyddio gweithdrefn ffurfiol.

4. Beth a ddisgwylir ohonoch chi?

4.1 Rydym yn credu bod gan bawb sy'n cwyno yr hawl i gael eu clywed, eu deall a'u parchu. Mae gan staff a llywodraethwyr yr Ysgol yr un hawl. Disgwyliwn ichi fod yn gwrtais a boneddigaidd, ac ni fyddwn yn goddef unrhyw ymddygiad ymosodol, treisgar nac afresymol.

4.2 Mae staff yr Ysgol yn rhyngweithio'n gyson bob dydd â dysgwyr, rhieni ac ymwelwyr ac felly ni allant ymateb i ofynion afresymol a pharhaus, neu gwyno plagus.

4.3 Mae gan yr Ysgol **Bolisi ar Weithredoedd Annerbyniol** ac mi fydd yn dilyn hwnnw ymhob achos o ymddygiad afresymol, fel y cyfeirir ato uchod. Mae copi o'r polisi hwn ar gael drwy wneud cais i'r Ysgol.

5. Ein dull o ateb eich pryder neu gŵyn

5.1 Byddwn yn ystyried eich pryderon a'ch cwynion mewn ffordd agored a theg.

5.2 Bydd yr Ysgol bob amser yn parchu hawliau a theimladau'r rhai sydd ynghlwm â'r mater, a byddwn yn gweithio'n unol ag egwyddorion rheoli gwybodaeth a deddfwriaeth cyfrinachedd.

5.3 Gall fod angen mwy o amser i ymchwilio'n llawn i gŵyn. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn eich hysbysu os ydyn ni'n annhebygol o allu cadw at yr amserlen a nodir yn y polisi hwn.

5.4 Efallai y byddwn yn gofyn cyngor yr Awdurdod Lleol os bernir bod hynny'n briodol. Dyna fydd yn digwydd fel arfer wrth ddelio â chwynion cymhleth neu sensitif.

5.5 Gall rhai mathau o bryderon neu gŵynion godi materion y mae angen delio â nhw mewn ffordd arall (yn hytrach na'r polisi cwynion). Mewn achosion o'r fath, byddwn yn esbonio'r rhesymau am hyn ac yn dweud wrthoch chi pa gamau y bydd angen eu cymryd.

5.6 Bydd cwynion a wneir yn ddienw yn cael eu cofnodi, ond bydd unrhyw ymchwiliad a gynhelir yn digwydd yn ôl disgresiwn yr Ysgol, yn dibynnu ar natur y gŵyn.

5.7 Er mwyn diogelu eich cyfrinachedd chi ac aelodau staff, rhaid inni glywed am y gŵyn gennych chi – un ai dros y ffôn, wyneb yn wyneb, neu drwy e-bost. Ni all yr Ysgol dderbyn nag ymateb yn ffurfiol i unrhyw gŵynion a wneir dros blatfformau cyfryngau cymdeithasol.

6. Ateb eich pryder neu gŵyn

6.1 Mae tri cham i'r polisi cwynion hwn, sef Cam A, B a C. Gellir datrys y rhan fwyaf o gwynion yng Ngham A neu B. Gallwch ddod â pherthynas neu gydymaith gyda chi i'ch cefnogi ar unrhyw adeg yn ystod y broses, ond bydd disgwyl ichi siarad drosoch chi'ch hun, oni bai bod angen cymorth arbennig arnoch. Byddwn hefyd yn cydnabod, pan fydd y sawl sy'n cwyno yn ddisgybl, ei bod hi'n rhesymol i'r cydymaith hwnnw gynghori a/neu siarad ar ran y disgybl.

6.2 Hyd y bo modd, byddwn yn delio â'ch pryder neu gŵyn yn gyfrinachol. Fodd bynnag, mi all fod yna adegau pan fydd angen i'r sawl sy'n delio â'ch pryder neu'ch cwyn ystyried a oes angen i rywun arall o fewn yr Ysgol wybod am eich pryder neu gŵyn, er mwyn datrys y mater mewn ffordd briodol.

6.3 Os ydych chi'n ddisgybl dan 16 oed a'ch bod am fynegi pryder neu wneud cwyn, byddwn yn gofyn am eich caniatâd cyn inni gysylltu â'ch rhiant/rhieni neu ofalwr/ofalwyr. Os ydych chi'n ddisgybl dan 16 oed sydd ymwneud â chwyn mewn unrhyw ffordd, mi allwn ni ofyn i'ch

rhiant/rhieni neu ofalwr/ofalwyr gymryd rhan a mynychu unrhyw drafodaethau neu gyfweliad gyda chi.

6.4 **Ni fyddwn** yn gallu rhoi unrhyw wybodaeth yn ôl ichi mewn ymateb ffurfiol os yw'n ymwneud â phlentyn arall a/neu unrhyw drydydd parti arall. Ni fyddwn chwaith yn trafod canlyniadau unrhyw ymchwiliad i ymddygiad staff, yn sgil ymrwymiad yr Ysgol i gadw at GDPR y DU. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio darparu sicrwydd, lle bo modd, mewn perthynas ag unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad uniongyrchol i dderbyn a/neu ymchwilio i'ch cwyn.

7 Cam A

7.1 Os oes gennych chi bryder, yn aml gallwch ei ddatrys yn gyflym drwy siarad ag athro neu'r **Pennaeth dros dro, Geraint Thomas**. Dylech fynegi'ch pryder cyn gynted ag y gallwch; fel arfer byddem yn disgwyl ichi ei fynegi o fewn **10 diwrnod ysgol** o unrhyw ddigwyddiad.

7.2 Y mwyaf o amser y byddwch yn ei gymryd, y mwyaf anodd y gall fod i'r rhai sydd ynghlwm â'r mater ddelio ag ef yn effeithiol. Mi all y gallu i gynnal ymchwiliad trwyadl hefyd leihau gydag amser, ac felly mae'n hanfodol bod cwynion yn cael eu mynegi mewn da bryd.

7.3 Os ydych chi'n ddisgybl, gallwch fynegi'ch pryder i'ch cynrychiolydd ar y Cyngor Ysgol, eich tiwtor dosbarth neu athro/athrawes rydych yn gyfforddus yn siarad â nhw. Ni fydd hyn yn eich atal, yn nes ymlaen, rhag mynegi cwyn os ydych chi'n teimlo nad yw'r mater(ion) a godwyd gennych wedi cael sylw priodol.

7.4 Byddwn yn ceisio rhoi gwybod ichi beth wnaethom ni, neu beth rydym wrthi'n ei wneud am eich pryder o fewn **15 diwrnod ysgol** fel arfer, ond os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn siarad efo chi er mwyn gallu cytuno ar amserlen ddiwygiedig.

7.5 Bydd y sawl sy'n goruchwylio eich pryder neu gŵyn yn anelu at roi gwybod ichi sut mae pethau'n mynd. Mi fydd hefyd yn cadw cofnod o'r pryder er mwyn gallu cyfeirio ato yn y dyfodol.

8 Cam B

8.1 Yn y rhan fwyaf o achosion, byddem yn disgwyl i'ch pryder chi gael ei ddatrys yn anffurfiol. Os ydych chi'n teimlo nad yw eich pryder gwreiddiol wedi cael sylw priodol, dylech wneud **cwyn ysgrifenedig i'r Pennaeth**.

8.2 Byddem yn disgwyl ichi anelu at wneud hyn o fewn **5 diwrnod ysgol** o dderbyn ymateb i'ch pryder, oherwydd mae o fudd i bawb i ddatrys cwyn cyn gynted ag y bo modd. Efallai y bydd y Ffurflen Gwyno, a geir yn Atodiad 1 (tudalennau 9 a 10) yn ddefnyddiol ichi. Os ydych chi'n ddisgybl, gallwn esbonio'r ffurflen ichi, eich helpu i'w llenwi, a rhoi copi ichi.

8.3 Os yw eich cwyn yn ymwneud â'r Pennaeth, dylech gyflwyno eich cwyn yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Llywodraethwyr drwy gyfeiriad yr Ysgol, gan ofyn bod eich cwyn yn cael ei hymchwilio.

8.4 Ymhob achos gall **y Pennaeth dros dro, Geraint Thomas** eich cynorthwyo i gyflwyno eich cwyn yn ysgrifenedig os oes angen.

8.5 Os ydych chi'n ymwneud â chwyn mewn unrhyw ffordd bydd **y Pennaeth dros dro, Geraint Thomas** yn esbonio beth fydd yn digwydd a'r cymorth sydd ar gael ichi.

8.6 Bydd **y Pennaeth dros dro, Geraint Thomas** yn eich gwahodd i drafod eich cwyn mewn cyfarfod. Byddwn yn cytuno ar amserlen gyda chi ar gyfer delio â'ch cwyn. Byddwn yn anelu at gael cyfarfod gyda chi i esbonio beth fydd yn digwydd, fel arfer o fewn **10 diwrnod ysgol** o dderbyn eich llythyr. Bydd **y Pennaeth dros dro, Geraint Thomas** yn cynnal yr ymchwiliad ac yn rhoi gwybod ichi beth yw'r canlyniad yn ysgrifenedig o fewn **15 diwrnod ysgol** o gwblhau'r ymchwiliad.

9 Cam C

9.1 Os ydych chi'n dal i deimlo nad yw eich cwyn wedi cael sylw teg, dylech ysgrifennu, drwy gyfeiriad yr Ysgol, at Gadeirydd y Llywodraethwyr, yn gosod eich rhesymau dros ofyn i Bwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethu i ystyried eich cwyn. Does dim angen ichi ysgrifennu holl fanylion eich cwyn eto, ond mae angen ichi esbonio pam eich bod yn teimlo nad yw eich cwyn wedi cael sylw priodol.

9.2 Ni fydd eich cwyn yn cael ei hail-ymchwilio yn ystod Cam C, ond bydd gofyn ichi ddatgan yn glir pam eich bod yn teimlo nad yw eich cwyn wedi cael sylw priodol. Gall y Pwyllgor Cwynion ofyn am gyngor annibynnol gan yr Awdurdod Lleol dan y cytundebau partneriaeth a chytundebau lefel gwasanaeth perthnasol.

9.3 Os oes angen cymorth arnoch yn hytrach nag anfon llythyr neu e-bost, gallwch ofyn am drafodaeth gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr neu **y Pennaeth dros dro, Geraint Thomas** a fydd yn ysgrifennu beth sy'n cael ei drafod a beth, yn eich geiriau chi, rydych chi'n teimlo sydd ei angen i ddatrys y broblem. Yna, gofynnir ichi arwyddo'r ddogfen hon, gan gadarnhau eich bod yn cytuno ei bod yn gofnod cywir o'r hyn a ddywedwyd. Byddem fel arfer yn disgwyl i hyn ddigwydd o fewn **5 diwrnod ysgol** o dderbyn ymateb yr Ysgol yng Ngham B. Byddwn yn rhoi gwybod ichi sut y bydd eich cwyn yn cael ei thrafod, ac yn anfon llythyr atoch i gadarnhau hyn. Bydd y Pwyllgor Cwynion fel arfer yn cael cyfarfod gyda chi o fewn **15 diwrnod ysgol** o dderbyn eich llythyr.

9.4 Bydd y llythyr hwn hefyd yn dweud wrthoch chi pryd y bydd angen derbyn yr holl ddogfennau sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Cwynion. Bydd pawb sydd ynghlwm â'r mater yn gweld y dogfennau cyn y cyfarfod, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn diogelu hawliau pobl o ran preifatrwydd gwybodaeth. Bydd y llythyr hefyd yn cofnodi'r hyn rydym wedi'i gytuno gyda chi o ran pryd a ble y cynhelir y cyfarfod a beth fydd yn digwydd. Gall fod angen newid yr amserlen, i wneud yn siŵr bod pobl ar gael, i gasglu gwybodaeth, neu i ofyn cyngor. Os felly, bydd y sawl sy'n delio â'r gŵyn yn cytuno gyda chi ar ddyddiad newydd ar gyfer y cyfarfod.

9.5 Fel arfer, er mwyn delio â chwyn mor gyflym â phosib, ni fydd y Pwyllgor Cwynion yn ail-drefnu'r cyfarfod fwy nag unwaith. Os byddwch chi'n gofyn am ail-drefnu'r cyfarfod fwy nag unwaith,

mi all y Pwyllgor dybio ei bod hi'n rhesymol ceisio gwneud penderfyniad am y gŵyn yn eich absenoldeb, i osgoi oedi diangen.

9.6 Ein nod fydd ysgrifennu atoch o fewn **15 diwrnod ysgol** o ddyddiad y cyfarfod, yn esbonio canlyniad ystyriaeth Pwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethu.

9.7 Pwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethu yw canolwr terfynol unrhyw gŵynion.

9.8 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall fod angen penodi '**Pwyllgor Cwynion Allanol**', wedi'i ffurfio gan lywodraethwyr Ysgolion eraill o fewn cylch gwaith yr Awdurdod Lleol. Mi fydd trefniadau o'r fath yn debygol o gael effaith ar yr amser a gymerir i gwblhau'r gŵyn, a gofynnir cyngor yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â nodi unigolion annibynnol addas i gynnal y broses hon (fel y'i gosodir ym mhwynt 10.7 isod).

9.9 Byddwch yn cael eich hysbysu'n ysgrifenedig os yw hi'n debygol y bydd angen Pwyllgor Cwynion Allanol i ystyried eich cwyn ymhellach.

10 Amgylchiadau arbennig

10.1 Pan wneir cwyn am unrhyw un o'r canlynol, bydd y weithdrefn gwyno'n cael ei defnyddio mewn ffordd wahanol:

10.2 **Y Pennaeth**

Bydd y pryder neu'r gŵyn yn cael ei chyfeirio at sylw Cadeirydd y Llywodraethwyr, a fydd yn cynnal yr ymchwiliad, neu efallai yn dirprwyo'r gwaith i lywodraethwr arall. Bydd Cam B o'r weithdrefn gwyno yn berthnasol.

10.3 **Llywodraethwr neu grŵp o lywodraethwyr**

Bydd y pryder neu'r gŵyn yn cael ei chyfeirio at sylw Cadeirydd y Llywodraethwyr ar gyfer ymchwiliad. Neu, mi all y Cadeirydd ddirprwyo'r mater i lywodraethwr arall ar gyfer ymchwiliad. Bydd Cam B o'r weithdrefn gwyno yn berthnasol.

10.4 **Cadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr**

Bydd Is-gadeirydd y Llywodraethwyr yn cael gwybod ac mi fydd yn ymchwilio i'r mater, neu mi all ddewis dirprwyo'r dasg i lywodraethwr arall. Bydd Cam B o'r weithdrefn gwyno yn berthnasol.

10.5 **Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr**

Bydd y gŵyn yn cael ei chyfeirio at Glerc y Corff Llywodraethu, a fydd yn rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Cwynion. Yna bydd Cam C o'r weithdrefn gwyno yn berthnasol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i b'un ai oes angen penodi Pwyllgor Cwynion Allanol, a gofynnir am arweiniad pellach gan yr Awdurdod Lleol.

10.6 **Y Corff Llywodraethu cyfan**

Cyfeirir y gŵyn at sylw Clerc y Corff Llywodraethu, a fydd yn rhoi gwybod i'r Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr, a'r Awdurdod Lleol. Gwneir trefniadau i benodi Pwyllgor Cwynion Allanol i ystyried y gŵyn yng Ngham C o'r weithdrefn.

10.7 Bydd yr Awdurdod Lleol yn cytuno ar drefniadau gyda'r Corff Llywodraethu mewn perthynas â phenodi Pwyllgor Cwynion Allanol, a bydd yn cysylltu â'r Clerc i drefnu'r cyfarfod briffio angenrheidiol ar ôl delio â'r gŵyn, i sicrhau bod modd rhoi unrhyw gyfleoedd dysgu neu welliannau ar waith fel bo angen.

11. Ein hymrwymiad i chi

11.1 **Ymhob achos** bydd yr Ysgol a'r Corff Llywodraethu yn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin mewn ffordd ddiduedd, agored a theg.

11.2 Byddwn yn cymryd eich pryderon a'ch cwynion o ddifrif, a phan fyddwn wedi gwneud camgymeriadau, byddwn yn ymddiheuro ac yn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o ganlyniad.

11.3 Os oes angen help arnoch chi i fynegi eich pryderon, byddwn yn ceisio eich cynorthwyo. Os ydych chi'n berson ifanc ac angen cymorth ychwanegol, efallai y byddwch chi am gysylltu â MEIC, sef llinell gymorth, cyngor ac eiriolaeth genedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae cyngor a chymorth ar gael hefyd gan Gomisiynydd Plant Cymru.

11.4 Gellir cysylltu â MEIC drwy radffôn: **0808 802 3456**, neu neges destun: **84001**.
Mae'r gwasanaeth hwn ar gael 24 awr y dydd.

11.5 Gellir cysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru drwy radffon: **0808 801 1000** (Llun i Gwener 9am i 5pm), neges destun: **80800** (dechreuwch eich neges gyda COM) neu e-bost: **advice@childcomwales.org.uk**.

Cafodd y polisi hwn ei adolygu gan y Corff Llywodraethu ar **<<DYDDIAD>>**

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ar ran y Corff Llywodraethu:

……

Dydiad cymeradwyo: …… (gan y Corff Llywodraethu llawn)

Dyddiad adolygu: ……

Dyddiad yr anfonwyd at yr Awdurdod Lleol: ……

Ffurflen Gwyno

Y sawl a gafodd y broblem ddylai lenwi'r ffurflen hon fel arfer. Os ydych chi'n gwneud cwyn ar ran rhywun arall, llenwch Adran B hefyd os gwelwch yn dda. Cyn mynd ati i roi sylw i'r gŵyn, sylwer y bydd angen inni fod yn fodlon bod gennych chi'r awdurdod i weithredu ar ran yr unigolyn dan sylw.

Os ydych chi'n ddisgybl, bydd yr Ysgol yn eich helpu i lenwi'r ffurflen hon, byddwn yn ei hesbonio ichi, ac yn rhoi copi ohoni ichi ar ôl iddi gael ei llenwi.

Eich manylion:

Teitl: Mr/Mrs/Miss/Ms/neu arall (noder):	
Enw(au) cyntaf:	
Cyfenw:	
Cyfeiriad a chod post:	
Eich cyfeiriad e-bost:	
Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd:	
Rhif ffôn symudol:	

Nodwch ymha un o'r ddulliau uchod yr hoffech chi inni gysylltu â chi:

……

Os ydych chi'n gwneud cwyn ar ran rhywun arall – rhowch eu manylion os gwelwch yn dda:

Eu henw llawn:	
Cyfeiriad a chod post:	
Beth yw eich perthynas chi â nhw?	
Pam ydych chi'n gwneud cwyn ar eu rhan?	

Am eich cwyn (defnyddiwch daflen ar wahân i barhau gyda'ch atebion os oes angen)

Enw'r ysgol rydych chi'n cwyno amdani:	

Yn eich barn chi, beth wnaethon nhw o'i le, neu beth na wnaethon nhw?
Disgrifiwch pa effaith mae hyn wedi'i gael arnoch chi:
Pryd ddaethoch chi'n ymwybodol o'r broblem yn y lle cyntaf?
Os oes mwy na thri mis wedi pasio ers ichi ddod yn ymwybodol o'r broblem yn y lle cyntaf, nodwch pam nad ydych chi wedi cwyno cyn hyn.
Yn eich barn chi, beth ddylid ei wneud i ddatrys y sefyllfa?
A ydych chi wedi dweud wrth aelod o'r staff am eich cwyn yn barod? Os ydych chi, rhowch fanylion cryno am sut a phryd wnaethoch chi hynny:

Llofnod yr achwynydd: …… Dyddiad: …….

Llofnod os ydych chi'n gwneud cwyn ar ran rhywun arall:

…… Dyddiad: …….

Anfonwch y ffurflen hon ac unrhyw ddogfennau ategol at: **Geraint Thomas**